

Cydymdeimlad, Cofion a Chyfarchion

Ar ddechrau blwyddyn newydd fel hyn, anfonwn ein cofion at bawb ohonoch, a dymunwn flwyddyn newydd llawn bendithion i chi i gyd. Ar yr un pryd, rydym yn sylweddoli fod nifer ohonoch wedi cyfarfod â threialon yn ystod 2022 a pharhawn i'ch cofio yn ein gweddïau.

Gyda thristwch y daeth y newyddion am farwolaeth Mr Edwin Jones (Peniel), ganol mis Rhagfyr. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'i briod, Mrs Jean Jones, a'i ferch, Sioned, a gweddill y teulu yn eu profedigaeth. Trist oeddem hefyd o glywed am farwolaeth Mrs Heather Jones (Llansannan) ar noswyl Nadolig. Cofiwn yn arbennig am Eifion, ei phriod, a gweddill y teulu yn eu galar a'u hiraeth amdani ac estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu oll. Gweddïwn y bydd Duw yn gwarchod dros y ddau deulu mewn ffordd arbennig ac y byddant, ynghanol eu tristwch, yn profi cariad Duw yn gysur ac yn gymorth iddynt.

Mae'n siŵr i chi hefyd glywed am farwolaeth y Parch. Rhys ab Ogwen Jones, cyn-weinidog eglwysi cylch Llansannan am gyfnod rhwng 1969–1972. Diolchwn i Dduw am ei fywyd a'i wasanaeth, ac estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'r teulu i gyd. Yn yr un modd, estynnwn ein cydymdeimlad â'r Parch Hugh Pritchard (cyn-weinidog ar eglwysi Gofalaeth Bro Dinbych rhwng 2000–2008, rhai o'r eglwysi hynny yn rhan o Ofalaeth Bro Aled erbyn hyn) yn ei brofedigaeth yntau o golli ei wraig, Rhiannon, yn ystod yr wythnosau diwethaf. Cofiwn amdano ef a'r teulu a hyderwn y byddant hwythau'n profi nerth a chynhaliaeth Duw ei hun yn ddigon yn ystod y dyddiau a'r wythnosau i ddod.

Cofiwn yn arbennig hefyd am y rhai ohonoch sydd heb fod cystal eich iechyd ar hyn o bryd. Fe dreuliodd Gwynfor Evans (Hiraethog) ychydig amser yn Ysbyty Glan Clwyd cyn y Nadolig, ac mae Selwyn Davies (Nantglyn) erbyn hyn yn cael gofal yng Nghartref Dolwen, Dinbych. Mae eraill wedi cael llawdriniaeth neu driniaethau gwahanol yn ystod yr wythnosau diwethaf a bydd rhai yn cychwyn ar driniaeth yn y flwyddyn newydd. Cyflwynwn bob un ohonoch i ofal Duw gan ofyn lldo gysgodi drosoch ac i wyllo dros eich anwyliaid yn yr un modd.

Llongyfarchiadau calonnog i Wyn Jones (Llansannan) a Bethany Taylor (Saron) ar eu dyweddiad dros y Nadolig. Gweddïwn am fendith Duw ar eu perthynas.

(Cyhoeddiadau ar gyfer y rhifyn nesaf i'w hanfon i Mair erbyn Ionawr 11^{eg} os gwelwch yn dda.)

Llais Bro Aled



Dydd Sul, 1 Ionawr 2023

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

Fel cyfnod y Nadolig, mae blwyddyn newydd hefyd yn tueddu i ennyn teimladau tra gwahanol ymhlith pobl. Gall fod yn arwydd o obaith a her gyffrous i rai, tra bydd eraill a glwyfwyd gan ddigwyddiadau 2022 yn troi tudalen y calendr newydd yn llawer llai brwdfrydig.

Yr hyn sy'n achosi cyffro neu bryder yw'r ffaith nad oes neb ohonom yn gwybod yn iawn beth sydd o'n blaenau. Rhaid i hyd yn oed yr arbenigwyr praffaf ddelio gydag ansicrwydd parhaus a chydabod nad yw'r ddynoliaeth yn medru rheoli popeth. Ond nid oes rhaid i hyn ein parlysu. Cofiwn fod nifer o ffigyrau amlwg y Beibl hefyd wedi wynebu anawsterau tebyg, a gallwn ddysgu o'u profiadau hwy.

Ystyriwch Ioan Fedyddiwr er enghraifft. Dyma'r un a lanwyd â'r Ysbryd Glân yng nghroth ei fam, yr un a fedyddiodd ac a gyhoeddodd am Iesu: “Dyma Oen Duw, sy'n cymryd ymaith bechod y byd!” (Ioan 1:29) Ond er ei weinidogaeth hynod yn paratoi ffordd yr Arglwydd, wynebodd yntau amheumon ac ansicrwydd. Wrth gyfeirio pobl at Iesu, byddai'n galw arnynt i edifarhau am eu pechodau, ac roedd hynny'n cynnwys Herod Antipas, arweinydd Galilea. O ganlyniad carcharwyd Ioan, ac o'r carchar anfonodd ei ddisgyblion at Iesu gan holi: Ai Ef oedd yr un y bu cymaint o ddisgwyl amdano, neu oedd y gwir Feseia eto i ddod?

Byddai'n hawdd i ni fod yn feirniadol o ansicrwydd Ioan, ond nid felly'r ymatebodd Iesu. Yn hytrach, atebodd Crist yn raslon trwy atgoffa Ioan o'r hyn a wnaeth: “Ewch yn ôl a dweud wrth Ioan beth dych chi wedi'i glywed a'i weld: Mae pobl ddall yn cael gweld, pobl gloff yn cerdded, pobl sy'n dioddef o'r gwahanglwyf yn cael eu hiacháu, pobl fyddar yn clywed, a phobl sydd wedi marw yn dod yn ôl yn fyw. Ac mae'r newyddion da yn cael ei gyhoeddi i bobl dlawd! (Mathew 11:4-5 Beibl.net)

Ar ddechrau blwyddyn newydd gyda'n gobeithion a'n hofnau yn gymysgedd ddryslyd, mae geiriau Iesu'n gyngor arbennig i ninnau hefyd. Yng nghanol ein hansicrwydd, edrychwn ar bwy yw'r Arglwydd Iesu gan fyfyrion ar y darluniau a ddefnyddiodd i ddisgrifio'i hun: Bugail Da, Goleuni'r Byd, yr Atgyfodiad a'r Bywyd. Ystyriwch yr hyn a gyflawnodd trwy Ei weinidogaeth, Ei farw aberthol ar y Groes

a’i atgyfodiad gogoneddus. Oes yna rywun rhagorach y gallwn ymddiried ein hunain iddynt, sydd wedi talu’n dyled drosom, ac sy’n addo bod gyda ni bob amser? (Mathew 28:20)

Ble gwelir cariad fel

ei ryfedd gariad ef?

Ble bu cyffelyb iddo erioed?

Rhyfeddod nef y nef! (*Iago Trichrug*)

Rhodri

Cyhoeddiadau'r Fro

Dydd Sul, Ionawr 1^{af}

- **Oedfa i'r Fro** – Cynhelir oedfa i'r fro yng Nghapel Groes am 10:30.

Dydd Mawrth, Ionawr 3^{ydd}

- **Paned a Sgwrs yn Festri Llansannan** am 1:30 y pnawn. Croeso i bawb.

Dydd Iau, Ionawr 5^{ed}

- **Oedfa Dechrau'r Flwyddyn** yng Nghapel Saron am 7:00 yr hwyr. Pregethir gan y Parch. Brian Huw Jones.

Dydd Gwener, Ionawr 6^{ed}

- **Paned a Sgwrs yng Nghapel Llanefydd** am 10:00. Croeso cynnes i bawb.

Dydd Sul, Ionawr 8^{fed}

- **Oedfa yn Llansannan** am 9:30 ac yng **Nghefn Meiriadog** am 11:00 o dan arweiniad Dr Owain Edwards. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa Thema yn Henllan** am 9:30 a **Chyfarfod Gweddi yn Llanefydd a Chefn Berain** am 10:00.
- **Cyfarfod Gweddi yn Saron** am 10:00 ac yn **Nantglyn** am 2:00.

Dydd Mawrth, Ionawr 10^{fed}

- **Cinio Jangl** yn Festri Llansannan am 12:00.

Dydd Iau, Ionawr 12^{fed}

- **Hwyl Pnawn Iau** (oedran derbyn – Bl.6) yn Festri Llansannan o 3:15–4:30 o dan ofal Rhodri a Gwenno a gweithwyr Coleg y Bala. Os nad ydych wedi cofrestru yn barod, rhowch eich enwau i Gwenno (07833 138515), os gwelwch yn dda.

Dydd Sul, Ionawr 15^{fed}

- **Oedfa yng Nghefn Meiriadog** am 9:30 ac yn **Llansannan** am 11:00 o dan arweiniad Rhodri. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa yn Llanefydd** am 9:30 ac yn **Henllan** am 11:00 o dan arweiniad Mr Rhys Dafis. Bydd Ysgol Sul yn Henllan am 10:00.
- **Oedfa i'r Daith (Saron a Nantglyn) yn Nantglyn** am 2:00 o dan arweiniad Mr Dafydd Picton Jones.
- **Oedfa'r Fro yng Nghefn Meiriadog** am 6:00 yr hwyr gyda Rhodri yn pregethu.

Rhaghysbysiad

- **Cymdeithas Llansannan** yn cyfarfod yn y Festri nos Lun, Ionawr 16^{eg} am 7:30 yr hwyr pryd y ceir noson yng nghwmni Rhys a Sheila Dafis: “Trysorau'r Ddaear”. Croeso i bawb.
- **Cyfarfod Blaenoriaid a Diaconiaid Gofalaeth Bro Aled** yn Llansannan nos Fawrth, Ionawr 17^{eg} am 7.30 yr hwyr.

Tŷ ar Osod

Tŷ clyd tair ystafell wely ar gael i'w osod yn Llansannan. Gwres canolog olew a phaneli solar tuag at gost y trydan. Am fanylion pellach a ffurflen gais, cysylltwch â Rhys Dafis (01745) 870362.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536